# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at y datganiad am weithgareddau marchnata Croeso Cymru a gyhoeddwyd gan Alun Ffred Jones, y Gweinidog dros Dreftadaeth, Mai 2010

**At Bethan Jenkins:**

Ysgrifennaf yn dilyn yr ymateb a roddais i chi yn y Cyfarfod Llawn ar 18 Mai ynglŷn ag ymgyrch farchnata newydd Croeso Cymru a sut y gall busnesau ymuno â'r ymgyrch.

Mae "For Proper Holidays" wedi rhoi llawer o wybodaeth i ni am wyliau yng Nghymru i'w chyflwyno i'r marchnadoedd yr ydym yn eu targedu ac mae'n debygol mai hwn fydd y cynnig ar gyfer y tair blynedd nesaf a'r tu hwnt hyd yn oed.

Gall y diwydiant twristiaeth cyfan yng Nghymru fod yn rhan o'r ymgyrch, drwy sicrhau eu bod ar y rhestr ar wefan Croeso Cymru. Gellir gwneud hyn trwy Guest Link Cymru.

Diben yr ymgyrch yw gwella brand Cymru a chynyddu'r ymweliadau, ond hefyd arwain pobl at www.visitwales.co.uk lle y gallant barhau i wylio mwy am yr ymgyrch, sy'n gweithredu fel porthol i ddysgu hyd yn oed mwy am wyliau yng Nghymru. Yn ogystal â map yr ymgyrch "For Proper Holidays", mae canlyniadau'r chwiliadau ar Gymru i gyd yn ymddangos ar fap Google, felly argymhellir bod pob busnes yn cofrestru gyda Chroeso Cymru.

Fel y dywedais yn y Cyfarfod Llawn, nid yw'r ymgyrch wedi'i chyfyngu'n ddaearyddol a gellir cynnwys unrhyw atyniad ynddi – mae Distyllfa Penderyn, er enghraifft, wedi'i rhestru fel atyniad i dwristiaid. Mae'r atyniadau sy'n cael y sylw mwyaf yn yr ymgyrch newydd ar hyn o bryd wedi'u dewis fel cynhyrchion nodedig sy'n ein helpu i gyflwyno neges glir ar yr hyn sydd gan Gymru i'w gynnig. Diben dewis y rhan o ogledd Cymru sy'n rhedeg tua'r de i Aberhonddu fel yr ardal gyntaf i'w chynnwys yn yr ymgyrch oedd sicrhau cydbwysedd rhwng y rhanbarthau yn dilyn yr ymgyrch 'Dadbacio Gwyliau' a gafodd ei chynnal ddechrau'r flwyddyn ac a oedd yn cynnwys ardaloedd rhwng Aberaeron a Bro Morgannwg.

Wrth i'r ymgyrch newydd ddatblygu, ychwanegir mwy a mwy o lwybrau at y map. Caiff hyn ei fonitro'n ofalus i sicrhau bod Cymru, ein cynhyrchion a'n cynulleidfa'n cael eu cynrychioli'n briodol. Bydd y llwybr nesaf a gaiff ei ychwanegu at y map yn dangos menywod cosmopolitaidd ar wyliau byr yn ninas Caerdydd.

Rwy'n mawr obeithio bod y wybodaeth hon o ddefnydd ichi.